OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 No. 2800

## Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 1999

**Cyfrifoldeb dros y trefniadau derbyn cychwynnol**

**3.**—(1) Gwneir y trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer ysgol newydd a fydd yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir gan —

(a) yr awdurdod addysg lleol, neu

(b) y corff llywodraethu dros dro lle bo'r awdurdod, gyda chytundeb y corff hwnnw, wedi dirprwyo iddynt y cyfrifoldeb dros benderfynu'r trefniadau hynny.

(2) Gwneir y trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer ysgol newydd a fydd yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir gan —

(a) y corff llywodraethu dros dro, neu

(b) yr hyrwyddwyr —

(i) lle nad yw'r corff hwnnw wedi'i sefydlu eto, a

(ii) lle bo'r hyrwyddwyr yn credu y byddai'n ddoeth i'r trefniadau derbyn gael eu penderfynu yn ddi-oed.